north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**15/03/2019**

**Teitl:** Cyllideb 2019/20

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb 2019/20 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

2.1 Cyflwyno Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer 2019/20 (Atodiad 1) i'r Cyd-bwyllgor. Mae'r gyllideb wedi'i rhannu i ddangos costau'r Swyddfa Rheoli Rhaglen, Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a'r Cyd-bwyllgor.

2.2 Cymeradwyo'r trefniadau a wnaed i Gyngor Gwynedd gyflawni swyddogaethau'r Corff Atebol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

2.3 Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd i weithredu'r gyllideb a gymeradwyir.

2.4 Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o'r cyn drefniadau cysgodol i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

2.5 Derbyn cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 i gronfa wrth gefn neilltuol a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd sydd wedi'i ffurfio o'r newydd angen cyllideb blwyddyn lawn ar gyfer 2019/20.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Er mai 2019/20 ydy'r flwyddyn gyllideb lawn gyntaf, dyddiad cychwyn ffurfiol Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd oedd 1 Chwefror 2019.

Cost y Swyddfa Rheoli Rhaglen

4.2 Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn y flwyddyn drosiannol yn seiliedig ar dair swydd lawn amser (Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithrediadau a Swyddog Cefnogaeth Gweithrediadau) ac mae'n cynnwys costau teithio a chynhaliaeth i'r swyddogion; Ymgysylltu a Chyfarfodydd i gynnwys costau cyfarfodydd swyddogion a chynadleddau/digwyddiadau'r Cynllun Twf; Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus ar gyfer codi proffil y Cynllun Twf gan ddefnyddio amrywiol sianeli yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol/y wefan; Ffi Archwilio Perfformiad a chyllideb Cyflenwadau a Gwasanaethau gyffredinol. Hefyd, mae'r cyfraniad arian cyfatebol tuag at y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol gan y chwe Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys.

4.3 Mae cyllideb fechan wedi'i chynnwys ar gyfer Eiddo, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch union leoliad y Swyddfa Rheoli Rhaglen, ac felly gallai'r costau newid yn unol â hynny.

4.4 Mae'r gyllideb yn cynnwys Cynllunio, Datblygu a Chefnogi'r Prosiectau ar gyfer datblygu prosiectau yn barod i'w cyflawni yn cynnwys datblygu'r Model Busnes Pum Achos (gweler 4.16 hefyd). Yn ôl y 'Rhaglen Waith gychwynnol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais' a gyflwynwyd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar 1 Chwefror 2019, yr amserlen debygol ar gyfer penodi Rheolwyr Rhaglen yw Chwarter 2, 2019/20 (neu Ch3 y flwyddyn galendr). Er bod y gyllideb wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar fewnbwn allanol, bydd hyblygrwydd i ddefnyddio rhan o'r gyllideb hon i benodi Rheolwyr Rhaglen (os gellir gwneud hyn heb ymrwymiad adnodd y tu hwnt i adnoddau'r Bwrdd).

Cost Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

4.5 Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2019/20 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Ariannol, Cyfreithiol, Cefnogaeth Gorfforaethol a Thechnoleg Gwybodaeth.

4.6 Caiff cwmpas y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cynnwys yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth unigol a gaiff eu cytuno gyda phob Adran.

4.7 Ar gyfer 2019/20, mae cyllideb o £153,870 wedi'i chynnwys ar gyfer Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol. Gall y costau godi wrth i'r Weledigaeth Twf ddatblygu, ond maent wedi'u paratoi ar sail y costau cychwynnol y gwyddys amdanynt ar hyn o bryd. Mae costau Gwasanaethau Cefnogol ar gyfer Cyd-bwyllgorau tebyg yn yr amrediad o £240,000 i £310,000 y flwyddyn.

4.8 <u>Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid - £105,710</u>

Mae'r gyllideb sydd wedi'i chynnwys yn seiliedig ar rôl y Swyddog Adran 151, Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolaeth Trysorlys (yn cynnwys ffi ymgynghoriaeth) ac Archwilio Mewnol. Bydd yn cynnwys Cyngor Ariannol, Monitro Cyllidebau yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol Cyngor Gwynedd a pharatoi Cyfrifon Statudol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol.

4.9 <u>Cyfreithiol - £16,000</u>

Bydd y Corff Atebol yn rhoi cyngor a chefnogaeth gyfreithiol i'r Cyd-bwyllgor. Bydd cyllideb arfaethedig y Corff Atebol yn cwrdd â chostau hynny, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys costau darparu swyddogaethau statudol y Swyddog Monitro. Mae'r costau yn seiliedig ar y tybiaethau yng nghyswllt cyfarfodydd misol y Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r Grŵp Gweithredol a chyfarfodydd chwarterol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Yn debyg i'r costau eraill a ragwelir, mae'n bosib y bydd angen cyfarch unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hyn drwy ddarparu adnoddau pellach. Nid yw'r costau'n cynnwys gwasanaethau cefnogol a chyngor cyfreithiol mewnol nac allanol a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer prosiectau unigol dan y Cynllun Twf neu'r Weledigaeth Twf.

4.10 <u>Cefnogaeth Gorfforaethol - £29,400</u>

Mae'r gyllideb sydd wedi'i chynnwys yn seiliedig ar gefnogaeth pwyllgorau yn nhermau rhaglenni a chofnodion, ynghyd â darparu cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd misol Cyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd a chyfarfodydd chwarterol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Mae cost cyfieithu dogfennau ysgrifenedig wedi'i hamcangyfrif fel rhan o'r gost gyffredinol yn seiliedig ar y defnydd a ragwelir. Mae cefnogaeth AD a chyngor ar gyfer staff y Swyddfa Rhaglen hefyd wedi'u hymgorffori o fewn y gyllideb hon. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar amodau gwasanaeth, hyfforddiant, iechyd a diogelwch a recriwtio a phenodi (ond nid yw'n cynnwys unrhyw gostau sy'n ymwneud â hysbysebu swydd wag nac asesu ymgeiswyr).

4.11 Technoleg Gwybodaeth - £2,760

Mae'r gyllideb sydd wedi'i chynnwys yn seiliedig ar gefnogaeth dechnegol i'r tair swydd yn y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn cynnwys ffôn desg a galwadau. Gall y costau newid yn dibynnu ar leoliad ac ati.

Cost y Cyd-bwyllgor

4.12 Cytundeb Llywodraethu 2 - £20,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol yng nghyswllt drafftio Cytundeb Llywodraethu 2.

4.13 Ffi Archwilio Allanol - £12,500

Bydd Cyfrifon y Cyd-bwyllgor yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd, ac mae amcan gyllideb wedi'i seilio ar y ffioedd y mae Cyd-bwyllgorau eraill wedi'u cael wedi'i chynnwys.

Cyfraniadau Ariannu

4.14 Cyfraniadau Partneriaid (GA1) - (£400,000)

Yn unol â'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf, mae Cyllideb 2019/20 yn cynnwys cyfraniad o £50,000 gan y chwe Chyngor a £25,000 gan y pedwar Ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £400,000.

4.15 Cyfraniadau Partneriaid (Eraill) - (£240,000)

Fel rhan o'r cyn Fwrdd Twf Gogledd Cymru, mae'r chwe Chyngor wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol o hyd at £40,000 i gwrdd â chostau Llywodraethu'r Bwrdd a chyfraniadau tuag at raglenni (trafnidiaeth a chadwyni cyflenwi) ynghyd â chyfraniad tuag at y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol, ac mae'r gyllideb wedi'i sefydlu gyda'r dybiaeth y bydd y cyfraniadau hyn yn parhau yn 2019/20, ac y byddant yn gyfraniad cyfartal gan bob un o'r chwe Chyngor.

4.16 Cyfalafu Costau'r Prosiectau - (£250,250)

Ar gyfer 2019/20, ac eithrio'r tair swydd Swyddfa Rheoli Rhaglen, tybiwyd y gallai 78% o'r costau ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau sy'n ymwneud â chynllunio prosiectau gael ei gyfalafu'n ôl-weithredol, ac felly byddai'n rhoi ffrwd incwm refeniw.

4.17 Sector Preifat

Mae'n debygol y bydd y sector preifat yn darparu ffynonellau ariannu yn y dyfodol.

4.18 Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ymchwilio i gyfleoedd i ddenu arian drwy Flaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd 'Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol' ar gyfer Hwylusydd y Weledigaeth Twf i ariannu gweithgareddau o fewn y Swyddfa Rhaglen. Pe byddai hyn yn llwyddiannus, gellid hawlio costau'n ôl-weithredol o fis Mehefin 2018 ymlaen.

**5. Goblygiadau Ariannol**

5.1 Fel y nodir yng Nghytundeb Llywodraethu 1, Adran 12.4.1.:-

*"bydd y Gyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol cyn derbyn unrhyw Gyfraniad TEM (sy'n cynnwys unrhyw gostau'r Cyd-bwyllgor), yn cael ei pharatoi ar ffurf drafft gan y Corff Atebol a'i chytuno gan y Cyd-bwyllgor a bydd pob un o'r Partïon yn cyfrannu tuag at y Gyllideb Flynyddol ar Sail Gymesur".*

5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20 wedi'i pharatoi ar sail y wybodaeth y gwyddys amdani ar hyn o bryd, a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth fod ar gael. Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

5.3 Amcangyfrifir mai'r tanwariant i'w drosglwyddo i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd yw £342,000 ac amcangyfrifir y byddai'r tanwariant tebygol ar ddiwedd Mawrth 2019 yn £251,000. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys amcan wariant ar gostau prosiect y mae'n bosib na fyddent yn codi cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Mae'r cynnig yn gyson â'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf y cytunwyd arno.

**7. Goblygiadau Staffio**

7.1 Yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2019, derbyniodd Prif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor, bwerau dirprwyedig i baratoi swydd ddisgrifiad a manylion person swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen, ymgymryd â'r broses arfarnu swydd a bwrw ymlaen i hysbysebu'r swydd.

7.2 Mae cyllideb 2019/20 yn cynnwys cyllideb ar gyfer tair swydd gyfwerth â llawn amser i'w penodi i'r Swyddfa Rheoli Rhaglen. Unwaith y bydd y Cyfarwyddwr wedi'i benodi, bydd strwythur staffio y Swyddfa Rheoli Rhaglen yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth a bydd pob swydd yn destun dyluniad swydd ac arfarniad manwl.

**8. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Grŵp Gweithredol.

**9. Atodiad**

Atodiad 1 - Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd 2019/20

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Mae'r adroddiad yn darparu cyllideb gychwynnol briodol ar gyfer cefnogi y Prosiect a'r trefniadau llywodraethu.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Atodiad 1**

| Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd - 2019/2020 | |
|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** |
| **Swyddfa Rheoli Rhaglen** | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 246,480 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 10,000 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 11,620 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 45,000 |
| Ffi Archwilio Perfformiad | 12,500 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 10,000 |
| Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol | 43,480 |
| Eiddo | 5,000 |
| Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau | 319,800 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Rhaglen** | **703,880** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 105,710 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 16,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 29,400 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,760 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **153,870** |
| **Cyd-bwyllgor** | |
| Cytundeb Llywodraethu 2 - Cyfreithiol | 20,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | 12,500 |
| **Cyfanswm Cyd-bwyllgor** | **32,500** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **890,250** |

**Atodiad 1**

| Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd - 2019/2020 | |
|---|---|
| **Incwm** | **(£)** |
| | |
| **Cyfraniadau Ariannu** | |
| | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - GA1** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (50,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (50,000) |
| Cyngor Gwynedd | (50,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (50,000) |
| Prifysgol Bangor | (25,000) |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (25,000) |
| Coleg Cambria | (25,000) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (25,000) |
| | |
| **Cyfraniadau Partneriaid - Eraill** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) |
| | |
| Cyfalafu Costau'r Prosiectau | (250,250) |
| Sector Preifat (yn y dyfodol) | 0 |
| | |
| **Cyfanswm Incwm** | **(890,250)** |
| | |
| **Cyllideb Net** | **0** |